CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG

DYDD GWENER, 24 MAWRTH 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd (Cadeirydd) W Lewis |
| | Cynghorwyr Cowan, M Lewis, Mackie, Robson, John, Birch, Andrews, Colbran, G Jones, a/ac Stephens |

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Roedd ymddiheuriadau wedi eu derbyn gan y Cynghorwyr Harris a Simmonds a Richard Grigg.

Dywedodd Cynghorwyr Cowan, M Lewis a Robson y bydden nhw'n hwyr yn ymuno â'r cyfarfod.

2 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi’u derbyn.

3 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2022 yn gofnod cywir.

4 : ADRODDIAD ARCHIFYDD MORGANNWG AM Y CYFNOD O 1 RHAGFYR 2022 HYD AT 28 CHWEFROR 2023

Rhoddwyd diweddariad cynhwysfawr i'r Aelodau ar waith y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod 1 Rhagfyr 2022 hyd at 28 Chwefror 2023, i gyd wedi'u categoreiddio yn erbyn canlyniadau'r Cynllun Blynyddol.

Yn gryno eglurodd yr Archifydd bu'n chwarter prysur i Archifau Morgannwg gyda digon o brosiectau parhaus yn parhau a rhai darnau mawr o waith ar y gweill. Roedd y sefyllfa ariannol yn parhau'n heriol, er y bu rhai datblygiadau cadarnhaol mewn ffrydiau incwm posib.

Un o'r datblygiadau mwyaf pleserus yn ystod y chwarter diwethaf oedd bod y gwasanaeth bellach yn agos at gyflwyno storfa gadwraeth ddigidol, a nodwyd ychydig flynyddoedd yn ôl fel blaenoriaeth allweddol i Archifau Morgannwg, ac fe'i pwysleisiwyd fel gweithred frys o fewn adroddiad Achredu 2020. Y gobaith oedd y byddai hwn yn ei le cyn yr adroddiad chwarterol nesaf i'r Cyd-bwyllgor.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, arsylwadau a sylwadau gan Aelodau’r Cyd-bwyllgor.

Roedd Cyd-aelodau'r Pwyllgor yn fodlon gyda'r adroddiad ac nid oedd cwestiynau, fodd bynnag roedd Aelodau am ddiolch i Swyddogion am yr adroddiad manwl.

**PENDERFYNWYD: nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 5 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

16 Mehefin 2023 am 2.00pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30 pm